Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymunedol Cae'r Felin
# Pencader
# Caerfyrddin
# Sir Gaerfyrddin
# SA39 9AA

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymunedol Cae'r Felin

Lleolir yr ysgol ym mhentref Pencader yn Sir Gaerfyrddin. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 91 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Mae'r disgyblion yn cael eu rhannu'n bedwar dosbarth.

Tua 19% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn debyg i'r ganran genedlaethol. Mae yn agos i hanner y disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac nid oes yr un o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 25% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sydd ychydig yn uwch na'r ganran genedlaethol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Ers yr arolygiad diwethaf ym mis Mai 2011, mae'r strwythur staffio wedi newid yn sylweddol. Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn Nhachwedd 2016.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mewn cyfnod byr, mae gweledigaeth y pennaeth i godi safonau a datblygu hyder, annibyniaeth a lles disgyblion wedi'i sefydlu'n gadarn.  Mae'r holl staff yn atgyfnerthu a hyrwyddo'r gwerthoedd hyn yn effeithiol ac yn cydweithio'n dda i wireddu'r weledigaeth trwy ddatblygu darpariaeth yr ysgol a chodi safonau.  Un o gryfderau'r ysgol yw'r modd mae'r staff yn meithrin a chynnal perthynas waith dda iawn â'r disgyblion, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu safonau a'u lles.  Mae'r cydweithio effeithiol a llwyddiannus rhwng yr athrawon a'r staff cefnogi yn gryfder ac yn cynnig cymorth pwrpasol i ddisgyblion yn unol â'u hanghenion.  O ganlyniad, erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd buddiol ac yn cyflawni'n dda o'u mannau cychwyn.  Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y cyfnod sylfaen a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn cael effaith gadarn ar brofiadau disgyblion.  Mae dylanwad llais y disgyblion yn un o gryfderau amlwg yr ysgol ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig ynghylch ymgymryd â swyddi o gyfrifoldeb.  Mae gwaith aelodau'r gwahanol bwyllgorau a grwpiau disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol a lles cyfoedion.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan ddisgyblion mewn sefyllfaoedd anffurfiol ac o fewn y dosbarthiadau

A2 Sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r ystod lawn o fedrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i sylwadau ac adborth athrawon am eu gwaith

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau llawer o ddisgyblion yn is na'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae bron pob disgybl, gan gynnwys disgyblion ag anghenion ychwanegol, yn gwneud cynnydd buddiol ac yn cyflawni'n dda o'u mannau cychwyn.

Ar draws yr ysgol, mae medrau cyfathrebu llawer o ddisgyblion yn dda. Maent yn gwrando’n astud ac yn trafod eu gwaith gyda brwdfrydedd. Maent yn defnyddio cystrawennau addas a geirfa sy’n briodol i’w hoed a’u gallu, er enghraifft wrth drafod hanes Noa. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn aeddfed gan fynegi barn yn hyderus, er enghraifft wrth drafod chwaraewyr pêl-droed gorau’r byd. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn defnyddio’r Gymraeg o’u gwirfodd o fewn y dosbarthiadau nac mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

Ar draws yr ystod oedran a gallu, mae llawer o’r disgyblion yn darllen yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn arddangos ymwybyddiaeth ffonig dda o oedran cynnar. Maent yn darllen gyda rhuglder a mynegiant da. Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf yn darllen yn hyderus a chywir ac yn arddangos ymwybyddiaeth gadarn o bwrpas atalnodi. Maent yn cywain gwybodaeth wrth ymchwilio mewn llyfrau neu ar y we wrth lunio adroddiad am y stadiwm rygbi cenedlaethol.

O oedran cynnar, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn. Mae ganddynt wybodaeth dda am lythrennau, cymalau a geiriau syml. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn amrywio’u brawddegau, yn atalnodi’n gywir, ac yn defnyddio ystod ddiddorol o ansoddeiriau a chymariaethau i gyfoethogi eu gwaith. Enghraifft o hyn yw sut maent yn addasu rhediad stori Jac a’r Goeden Ffa. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyflwyno’u syniadau a’u gwybodaeth yn effeithiol yn y ddwy iaith. Maent yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi. Mae llawer yn ysgrifennu darnau estynedig diddorol o ansawdd da ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad ffeithiol am un o ryfeddodau’r byd yn eu gwaith Saesneg ym Mlwyddyn 5 a 6. Mae cyflwyniad eu gwaith a’u llawysgrifen yn dda ar draws yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhif yn llwyddiannus. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn datblygu eu dealltwriaeth o werth darnau arian a chyfrifo cyfansymiau wrth brynu bwyd iach o siop y dosbarth amser egwyl yn llwyddiannus. Mae llawer yn gallu datrys problemau ysgrifenedig, er enghraifft wrth ddatrys pellter taith rhwng gwahanol bentrefi yn gywir yn seiliedig ar fap. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn defnyddio ystod o strategaethau cyfrifo i ddatrys problemau rhif sy’n gynyddol anodd. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn gweithio’n systematig wrth ddarganfod nifer y gemau pêl-droed y bydd angen i nifer benodol o dimau eu chwarae mewn cystadleuaeth wrth ddatrys problemau mathemategol. Mae’r mwyaf abl yn medru cymhwyso eu gwybodaeth o algebra i gyfrifo hyn yn fwy hwylus ac i ganfod atebion ar gyfer nifer fawr o dimau. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn dehongli gwybodaeth o restrau, tablau, diagramau a graffiau yn bwrpasol. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu ar

hyn yn llwyddiannus ac yn llunio a thrin gwybodaeth o graffiau mewn ymchwiliadau gwyddonol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau TGCh disgyblion yn un o gryfderau'r ysgol ac mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r ystod lawn o fedrau'n gyson a bwriadus ar draws y cwricwlwm i safon uchel iawn. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i gadw'n ddiogel ar-lein ac yn datblygu'n ddefnyddwyr hyderus iawn ac annibynnol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau TGCh yn llwyddiannus iawn mewn gweithgareddau cyfathrebu, trin data a modelu. O oed ifanc iawn, mae disgyblion yn defnyddio apiau pwrpasol yn hyderus ac yn creu llyfrynnau gwybodaeth o safon uchel. Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd y bu i ddisgyblion y dosbarth meithrin a derbyn gydweithio i gynllunio a chreu llyfryn yn ailadrodd stori'r Pasg gan gyfuno medrau meddwl, creadigrwydd, llythrennedd a TGCh yn effeithiol iawn.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynhyrchu taflenni gwybodaeth ac yn chwilio am wybodaeth o'r we ar gyfer eu gwaith thematig yn bwrpasol. Mae llawer yn holi, defnyddio a chreu cronfeydd data'n dda ac i bwrpas. Mae medrau modelu y rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn dda iawn ac maent yn defnyddio taenlenni yn hollol hyderus wrth nodi a gwirio faint o drydan a ddefnyddiwyd yn yr ysgol tros gyfnod penodol o amser. Maent yn gallu cyflwyno a thrin y data hwn yn llwyddiannus. Mae llawer yn datblygu medrau meddwl a datrys problemau yn fwriadus wrth ddatblygu cyfres o gyfarwyddiadau i raglennu symudiadau a thestun ar sgrin i hybu ymwybyddiaeth o fwlian. Mae'r gweithgareddau hyn i gyd yn paratoi'r disgyblion yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae gwaith aelodau'r gwahanol bwyllgorau a grwpiau disgyblion yn rhoi llais amlwg i ddisgyblion ac yn eu galluogi i gael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol a lles chyfoedion. Mae hyn yn un o gryfderau amlwg yr ysgol ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig ynghylch ymgymryd â'u swyddi cyfrifoldeb. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn gweithio ar y cyd, yn hyderus ac annibynnol, wrth gynrychioli barn eu cyfoedion, gan roi adborth iddynt yn y gwasanaethau boreol. Maent wedi cydweithio'n effeithiol a llwyddiannus iawn i greu fideo fel rhan o'u cais i gwmni lleol am grant i ddatblygu'r ardal allanol. Pwrpas y cais yw ceisio cael dodrefn eco-gyfeillgar, rhoi wyneb newydd i'r iard a pheintio gemau arno i ddatblygu rhifedd disgyblion. O ganlyniad, derbyniwyd grant o £14,000 ac mae'r gwaith o wneud y gwelliannau wedi cychwyn. Mae'r cyngor ysgol hefyd yn dewis elusen benodol yn flynyddol ac mae elusennau lleol a chenedlaethol wedi elwa o hyn ar draws y blynyddoedd.

Mae aelodau'r pwyllgor eco gweithgar yn codi ymwybyddiaeth eu cyd-ddisgyblion o bwysigrwydd byw'n gynaliadwy yn effeithiol iawn. Maent yn monitro pob dosbarth yn ddirybudd yn wythnosol i wirio a yw'r goleuadau a'r tapiau dwr wedi eu diffodd a beth yw cynnwys y bin sbwriel. Yn ogystal, maent yn tyfu a gwerthu llysiau a thrwy hyn yn datblygu ymwybyddiaeth eu cyfoedion o bwysigrwydd bwyta'n iach. Maent yn canolbwyntio yn ystod y tymor hwn ar ddechrau casglu sbwriel o amgylch y pentref ac yna didoli'r sbwriel i'w ailgylchu.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrtais iawn tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Maent yn ofalgar ac yn sensitif i anghenion ei gilydd. Mae'r criw digidol yn atgoffa cyd-ddisgyblion am reolau'r rhyngrwyd yn dda ac mae ymwybyddiaeth gadarn gan bron bob disgybl o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y we. Mae 'bydis y buarth' yn hybu cyd-chwarae ar yr iard ac yn ceisio sicrhau nad oes yr un plentyn yn teimlo'n unig. Mae disgyblion hŷn wedi derbyn hyfforddiant penodol er mwyn sicrhau ymddygiad cadarnhaol ar yr iard ac mae hyn yn cael effaith fuddiol ar ymddygiad yn gyffredinol. Prosiect hynod ddiddorol yw'r modd mae disgyblion hŷn yn cydweithio â staff y gegin yn wythnosol er mwyn gweini bwyd i henoed yr ardal. Mae hyn yn hybu dealltwriaeth ar draws y cenedlaethau yn effeithiol iawn.

Mae agweddau cadarnhaol gan lawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol tuag at ddysgu. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn canolbwyntio'n dda yn y gwersi ac yn aros ar y dasg. Mae llawer yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig wrth geisio datrys tasgau ymarferol rhifedd yn y cyfnod sylfaen neu wrth wneud ymchwiliadau gwyddonol yng nghyfnod allweddol 2. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn cwblhau eu gwaith yn llwyddiannus. Nid ydynt yn ofni gwneud camgymeriad ac maent yn barod i awgrymu ffyrdd gwahanol o ddatrys problem mewn tasgau rhifedd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod pwy i fynd ati i gael cyngor neu gymorth pan fyddant yn poeni am rywbeth. Fodd bynnag, mae ymddygiad ychydig iawn o ddisgyblion yn heriol ac yn tynnu eu sylw oddi ar eu dysgu eu hunain a dysgu disgyblion eraill.

Mae dealltwriaeth y disgyblion o ffordd iach o fyw yn datblygu'n dda. Mae llawer yn cymryd rhan yn y gweithgaredd cerdded dyddiol o amgylch cae'r ysgol neu mewn clybiau gweithgaredd ar ôl ysgol. Mae gan ran fwyaf y disgyblion wybodaeth dda am y problemau a achosir gan gamddefnyddio sylweddau, alcohol a thybaco ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r rhan fwyaf o rieni a disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i ymdrechion cyson yr ysgol a'r swyddog lles i gynyddu cyfraddau presenoldeb. Fodd bynnag, nid yw presenoldeb disgyblion yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg ac mae ychydig iawn o ddisgyblion yn absennol yn gyson ac mae hyn yn amharu ar eu dysgu.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r modd mae'r athrawon yn meithrin a chynnal perthynas waith dda iawn â'r disgyblion, sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Maent yn creu awyrgylch ddysgu ysgogol a chynhaliol yn y gwersi, yn arbennig felly yn y cyfnod sylfaen. Mae'r athrawon yn cyflwyno'n fedrus ac yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Maent yn modelu iaith yn effeithiol, sy'n cryfhau medrau llafar y disgyblion yn llwyddiannus. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad ieithyddol y disgyblion, yn enwedig y rhai o gefndiroedd di-Gymraeg a'r disgyblion hynny y mae'r Gymraeg yn hollol newydd iddynt. Fodd bynnag, mewn gwersi mathemateg a gwyddonieth ar frig yr ysgol, nid oes cydbwysedd priodol rhwng darparu'r addysgu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae staff yr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol; gweler hyn orau o ran y cyd-gynllunio a wna staff y cyfnod sylfaen. Mae'r cydweithio effeithiol a

llwyddiannus rhwng yr athrawon a'r staff cefnogi yn gryfder ac yn cynnig cymorth i ddisgyblion yn unol â'u hanghenion.  Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i gwblhau eu tasgau'n llwyddiannus.

Mae'r athrawon yn rhannu nod y wers gyda'r disgyblion yn gyson ac yn cynnig cyfleoedd buddiol i'r disgyblion adolygu a gwerthuso eu gwaith.  Maent yn esbonio'r tasgau'n glir ac yn holi'n bwrpasol er mwyn sicrhau dealltwriaeth gadarn pob disgybl. Maent yn rhoi adborth buddiol i'r disgyblion am sut i wella eu gwaith ymhellach ond nid ydynt yn rhoi cyfleoedd digon cyson iddynt ymateb i'r sylwadau yn ysgrifenedig.

Mae'r ysgol yn darparu ystod amrywiol o brofiadau dysgu gwerthfawr sy'n bodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus.  Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr ar ddechrau pob thema, i'r disgyblion gynnig syniadau a dod i benderfyniad ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei ddysgu. Cyfoethogir y profiadau dysgu trwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol, er enghraifft i hyrwyddo diogelwch ar-lein.  Mae ymweliadau â lleoedd gwahanol, gan gynnwys y gymuned leol a'r prosiect treftadaeth, yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion ymhellach gan greu diddordeb mewn hanes lleol yn llwyddiannus.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n llwyddiannus iawn ac yn un o gryfderau'r ysgol.  Maent wedi'u gwreiddio'n llwyddiannus ac yn cael eu defnyddio hefyd yn nosbarth gwaelod cyfnod allweddol 2.  Mae'r athrawon yn darparu amgylchedd dysgu cynhyrchiol ac yn cynllunio profiadau dysgu'n greadigol i fodloni anghenion a diddordebau'r disgyblion.  Mae'r staff yn ysgogi disgyblion i ddarganfod a dysgu'n annibynnol o'r cychwyn ac yn datblygu medrau disgyblion yn effeithiol trwy ddarparu profiadau ysgogol a diddorol iddynt, er enghraifft yn seiliedig ar gymeriadau o stori.

Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu.  Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnig cyfleoedd digon cyson iddynt ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2.  Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion sydd â Chymraeg yn iaith newydd iddynt.

### Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a theuluol sy'n hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi ac ymroddiad gan ddisgyblion yn effeithiol.  Mae pwyslais cryf ar gynnig cyfle cyfartal i bob disgybl ac ar hybu amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a thegwch.  Mae'r ysgol wedi sefydlu trefn effeithiol i ofalu am y disgyblion amser chwarae trwy roi cyfrifoldeb i'r rhai hŷn warchod a chwarae gyda'r rhai iau.  Mae gan yr ysgol drefniadau da ar gyfer byw'n iach.  Enghraifft o hyn yw'r her cerdded milltir y bore o amgylch iard yr ysgol a gweithgareddau bwyta'n iach gyda'r cyngor ysgol yn annog byrbryd iach ar gyfer egwyl y bore.

Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a'r disgyblion y mae'r Gymraeg yn newydd iddynt yn dda.  Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth gyson i unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn unol â'u hanghenion.  O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu a'u medrau cymdeithasol.  Mae gan yr ysgol bartneriaethau llwyddiannus gydag asiantaethau allanol sy'n darparu cefnogaeth arbenigol ac arweiniad i staff.

Mae'r ysgol yn cynnal cyfnodau effeithiol o addoli ar y cyd yn rheolaidd, gan hybu dealltwriaeth disgyblion o gydraddoldeb ac amrywiaeth a meithrin eu medrau ysbrydol a moesol yn llwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn gryf ac, o ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o ddiogelwch, iechyd personol a lles meddyliol. Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn dangos parch ac yn deall pwysigrwydd ystyried safbwyntiau ei gilydd.

Yn lled ddiweddar, mae'r ysgol wedi mabwysiadu dull electronig newydd o olrhain cynnydd disgyblion a monitro cyflawniad grwpiau penodol o ddysgwyr. Mae'r athrawon yn defnyddio'r system yn gynyddol hyderus er mwyn sicrhau targedu disgyblion unigol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn olrhain cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion yn ddigon miniog eto.

Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r rhieni yn gadarn. Trwy rannu cylchlythyron a diweddaru gwefan yr ysgol, mae'r ysgol yn cynnig gwybodaeth gyson a defnyddiol i rieni am faterion o ddydd i ddydd ac am yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd priodol i'r rhieni ddatblygu eu gallu i gefnogi eu plant. Enghraifft o hyn yw cynnig cyfleoedd i fynychu sesiynau darllen a dysgu'r Gymraeg yn yr ysgol. Mae'r berthynas â'r gymuned yn un fuddiol ac mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u hardal, eu hetifeddiaeth a'u Cymreictod. O ganlyniad, mae gwybodaeth dda gan y disgyblion, er enghraifft, o hanes melin wlân Glantalog, tollborth Alltwalis a ffatri wlân Abergwen.

Mae'r ysgol yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn effeithiol drwy arddangos eu gwaith gorau drwy'r ysgol ac yn cynnig cyfleoedd i rannu a dathlu eu llwyddiannau mewn gwasanaethau. Mae hyn yn ennyn balchder y disgyblion yn eu gwaith. Mae medrau creadigol y disgyblion yn cael eu datblygu'n dda trwy efelychu ac astudio gwaith arlunwyr lleol. Caiff y disgyblion gyfleoedd cyson i gystadlu mewn eisteddfodau a pherfformio mewn cyngherddau yn ystod y flwyddyn. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mewn cyfnod cymharol fyr ers ei phenodiad, mae gweledigaeth y pennaeth wedi'i sefydlu'n gadarn. Mae wedi ei seilio ar godi safonau a datblygu hyder, annibyniaeth a lles disgyblion ar draws yr ystod oedran a gallu. Mae'r holl staff yn atgyfnerthu a hyrwyddo'r gwerthoedd hyn yn effeithiol ac yn cydweithio'n dda i wireddu'r weledigaeth trwy ddatblygu darpariaeth yr ysgol a chodi safonau. Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol iawn i'r rhan fwyf o flaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi cychwyn ymgorffori gofynion y fframwaith cymhwysedd digidol yn effeithiol.

Er bod aelodaeth ac arweinyddiaeth y corff llywodraethol wedi newid yn ddiweddar, maent yn cydweithio'n effeithiol er mwyn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygu'r ysgol. Mae gan aelodau'r corff wybodaeth gyfredol a manwl am berfformiad yr ysgol, effeithiolrwydd y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion. Mae cyfarfodydd y corff llawn a'r is-bwyllgorau pwrpasol yn canolbwyntio ar gyflawniad disgyblion ynghyd â gwireddu eu cyfrifoldebau statudol. Maent yn derbyn

gwybodaeth gyfredol a manwl gan y pennaeth trwy adroddiadau cynhwysfawr. Mae aelodau'r corff yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd er mwyn cymryd rhan mewn rhaglen o weithgareddau gwerthuso ansawdd. Trwy deithiau dysgu i'r gwahanol ddosbarthiadau, maent yn casglu tystiolaeth fanwl o brofiadau dysgu'r disgyblion. O ganlyniad, mae ganddynt adnabyddiaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Maent yn parhau i ddatblygu eu rôl fel ffrind beirniadol er mwyn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

Mae dogfen hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr, clir a didwyll. Mae gan y pennaeth a'r athrawon wybodaeth fanwl am yr ysgol ac maent yn defnyddio amrediad effeithiol o dystiolaeth er mwyn sefydlu a chynnal diwylliant cadarn o wella ansawdd parhaus. Mae adroddiadau monitro yn onest ac yn adnabod agweddau o gryfder ac elfennau sydd angen eu datblygu ymhellach. Trwy graffu ar gynlluniau a gwaith disgyblion, mae ganddynt wybodaeth drylwyr ynglŷn â safonau ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae prosesau hunanarfarnu yn cael effaith gadarnhaol ar hyder athrawon ac ar ddatblygu'r ddarpariaeth.

Mae'r blaenoriaethau gwelliant sy'n cael eu cynnwys yn y cynllun datblygu ysgol yn cael eu hadnabod yn uniongyrchol o ganfyddiadau'r broses hunanarfarnu. Maent yn canolbwyntio'n glir ar ddatblygu'r ddarpariaeth a chodi safonau. Enghraifft o hyn yw'r modd y mae'r ysgol wedi cysoni eu strategaethau ar gyfer annog ymddygiad cadarnhaol ac ymateb i ymddygiad heriol. O ganlyniad, mae'r strategaethau hyn yn cael eu gweithredu'n gyson gan yr holl staff ar draws yr ysgol. Mae'r ddogfen yn cynnwys camau ac amserlen weithredu briodol, ynghyd â chyfrifoldebau i'r staff eu cyflawni. Mae cyllid yn cael ei ddyrannu ar gyfer y gwahanol flaenoriaethau yn effeithiol. Fodd bynnag, er bod targedau ar gyfer pob agwedd, nid oes defnydd digon cyson o dargedau meintiol er mwyn medru mesur cynnydd yn ddigon manwl.

Mae lefelau staffio'r ysgol yn gymesur â'r angen, ac mae arbenigeddau staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol wrth sicrhau profiadau dysgu ysgogol ar gyfer y disgyblion a chefnogaeth i weddill y staff. Enghraifft o hyn yw'r gefnogaeth a gynigir o ran y cyfnod sylfaen a'r ddarpariath ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol gyda hyfforddiant addas yn cael ei drefnu yn ôl y galw.

Mae grantiau'n cael eu hanelu'n briodol at staffio ac adnoddau er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth ac ehangu adnoddau. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn monitro defnydd o'r gyllideb yn ofalus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 28/08/2018